# From Commitment to Practice: Achieving the Welsh Promise Bronze Standard at Little Chums

Little Chums has successfully met the Bronze level Welsh Promise, embedding Welsh language and culture across planning, communication, and celebrations. Children are regularly exposed to Welsh in fun, meaningful ways, staff are developing confidence, and families are engaged bilingually. This work provides a solid foundation for future progression towards Silver and Gold levels, demonstrating Little Chums' commitment to a bilingual, inclusive, and culturally aware environment.

**Why did you decide to enrol on The Welsh Promise?**
For many years now, we've ensured that all our signs are bilingual, staff use incidental Welsh were possible and have always celebrated major Welsh cultural events. Little Chums enrolled on The Welsh Promise in order to gain externally verified recognition of this and to, with help from Clybiau Plant, audit where improvements could be made to extend Welsh provision for the children at our setting.

**Why is increasing the use of Welsh important to you as a setting?**
Increasing the use of Welsh is important to us as we are based in a Welsh County that currently has a limited Welsh-speaking population. We feel it is important for children to develop an early awareness of the language and culture of the country they live in. Introducing Welsh through everyday routines and play helps make the language feel normal and accessible rather than formal or intimidating. Our current focus is not on teaching fluency, but on building children's confidence and familiarity with Welsh in a relaxed, pressure-free way. Using incidental Welsh also supports inclusivity, ensuring that both English and Welsh are valued within our setting, while encouraging staff to reflect on and gradually develop their own confidence in using the language.

**Prior to the launch of 'The Welsh Promise', what did you know about CIW's Active Offer?**
Prior to the launch of The Welsh Promise, we had a general awareness of CIW's Active Offer and understood it as promoting the visibility and use of Welsh within early years settings in Wales. However, as we are based in a predominantly limited-Welsh-speaking area, our understanding was largely informal and based on everyday practice rather than a structured review. The Welsh Promise has supported us in reflecting more clearly on the Active Offer and recognising how our existing approaches already contribute towards it. What impact has 'The Welsh Promise' and the support from Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs had on your setting, staff and children in your care? The Welsh Promise,along with the support from Clybiau Plant, has provided us with a clear framework to reflect on our existing practice and recognise what we were already doing well.

It has helped increase staff confidence in using incidental Welsh and encouraged more consistency across the setting. For the children, Welsh is now more visible and regularly used as part of everyday activities, helping to normalise the language in a relaxed and inclusive way. Overall, the support has helped us feel more confident that our approach is improving the use of Welsh, while also highlighting achievable next steps as we continue to develop our provision.

**What have you enjoyed most about the Promise?**

What we have enjoyed most about The Welsh Promise is the supportive and encouraging approach it takes. Rather than feeling like a full blown assessment or a pointless checklist, it has felt like a positive opportunity to reflect on our practice and celebrate what we already do well. The guidance and support from Clybiau Plant has been reassuring and practical, helping staff feel more confident and motivated to increase the use Welsh in everyday situations. Overall, the Promise has felt inclusive, achievable and encouraging, making engagement with Welsh a positive experience for both staff and children.

**Has the Welsh Promise increased your confidence to work towards the Active Offer?**

The Welsh Promise has increased our confidence in working towards the Active Offer. It has helped us better understand what the Active Offer looks like in practice and reassured us that many elements were already embedded within our setting. The structured support and guidance offered by Clybiau Plant has made the process feel manageable and achievable, particularly within a predominantly limited-Welsh-speaking area. As a result, we feel more confident in taking small, meaningful steps to further develop our use of Welsh as part of everyday routines.

**Have you received any feedback from parents regarding the increased use of Welsh in your setting?**

We have received informal and positive feedback from parents regarding the increased use of Welsh within the setting. While many of our families are not Welsh-speaking and Welsh may not sometimes be a priority for all busy working parents, several have commented positively on how Welsh is introduced in a relaxed and general way. Parents have engaged by using simple greetings at drop-off and pick-up times and by joining in with Welsh songs during events such as our Christmas sing-along. Overall, feedback suggests that parents value the exposure their children receive and appreciate that Welsh is incorporated naturally, without pressure or expectation.

**What's next for your setting?**

Our next steps are focused on building gradually on the foundations established through the Welsh Promise at Bronze level. We plan to continue increasing staff confidence and consistency in using incidental Welsh as part of everyday routines, while identifying small, achievable opportunities to extend children's exposure to the language. We will also continue to reflect on our practice using the Welsh Promise framework and support from Clybiau Plant as we begin working towards Silver, ensuring that any developments remain inclusive, manageable and appropriate for our setting and community.

Contact Us to find out more about the support Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs can offer your club.

www.clybiauplantcymru.org
info@clybiauplantcymru.org
029 2074 1000
Facebook
Twitter
Instagram
















Registered Charity/Elusen Gofrestredig: 1093260
Company limited by guarantee/Cwmni Cyfyngedig trwy warant: 4296436

## O Ymrwymiad i Arfer: Cyflawni'r Safon Efydd yr Addewid Cymraeg yn Little Chums

Mae Little Chums wedi llwyddo i gyflawni lefel Efydd yr Addewid Cymraeg, gan wreiddio'r Gymraeg a diwylliant Cymreig ar draws cynllunio, cyfathrebu a dathliadau. Mae plant yn cael eu hamlygu'n rheolaidd i'r Gymraeg mewn ffyrdd hwyliog ac ystyrlon, mae staff yn datblygu eu hyder, ac mae teuluoedd yn cael eu cynnwys mewn dull dwyieithog. Mae'r gwaith hwn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen tuag at lefelau Arian ac Aur yn y dyfodol, gan ddangos ymrwymiad Little Chums i amgylchedd dwyieithog, cynhwysol a'n ymwybodol o wahanol ddiwylliannau.

**Pam wnaethoch chi benderfynu cofrestru ar yr Addewid Cymraeg?**
Ers nifer o flynyddoedd bellach, rydym wedi sicrhau bod ein holl arwyddion yn ddwyieithog, bod staff yn defnyddio Cymraeg achlysurol lle bynnag y bo modd, ac rydym bob amser wedi dathlu digwyddiadau diwylliannol Cymreig pwysig. Cofrestrodd Little Chums ar yr Addewid Cymraeg er mwyn cael cydnabyddiaeth allanol wedi'i gwirio am hyn ac, gyda chymorth Clybiau Plant Cymru, i archwilio ein darpariaeth a nodi lle gellid gwneud gwelliannau i ymestyn profiadau Cymraeg i'r plant yn ein lleoliad.

**Pam mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn bwysig i'ch lleoliad?**
Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn bwysig i ni gan ein bod ni wedi lleoli mewn sir Gymreig sydd gyda phoblogaeth gymharol gyfyngedig o siaradwyr Cymraeg. Rydym yn teimlo ei bod yn bwysig i blant ddatblygu ymwybyddiaeth gynnar o iaith a diwylliant y wlad y maent yn byw ynddi. Mae cyflwyno'r Gymraeg trwy drefnau dyddiol a chwarae yn helpu i wneud yr iaith yn teimlo'n naturiol ac yn hygyrch, yn hytrach na ffurfiol neu frawychus. Nid yw ein ffocws presennol ar addysgu rhuglder, ond ar feithrin hyder a chyfarwyddyd plant gyda'r Gymraeg mewn ffordd hamddenol, heb bwysau. Mae defnyddio Cymraeg achlysurol hefyd yn cefnogi cynhwysiant, gan sicrhau bod y Saesneg a'r Gymraeg yn cael eu gwerthfawrogi yn ein lleoliad, wrth annog staff i fyfyrio ar eu hyder eu hunain a datblygu eu hyder yn raddol.

**Cyn mynd ati i lansio'r Addewid Cymraeg, beth oeddech yn ei wybod am y Cynnig Gweithredol gan AGC (CIW)?**
Cyn lansio'r Addewid Cymraeg, roedd gennym ymwybyddiaeth gyffredinol o'r Cynnig Gweithredol gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac roeddem yn ei ddeall fel rhywbeth sy'n hyrwyddo gwelededd a defnydd y Gymraeg mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Fodd bynnag, gan ein bod mewn ardal lle mae yna llai o ddefnydd o'r Gymraeg, roedd ein dealltwriaeth yn bennaf yn anffurfiol ac yn seiliedig ar arferion dyddiol yn hytrach nag adolygiad strwythuredig. Mae'r Addewid Cymraeg wedi ein cefnogo i fyfyrio'n gliriach ar y Cynnig Gweithredol ac i gydnabod sut mae ein dulliau presennol eisoes yn cyfrannu tuag ato.

**Pa effaith mae'r Addewid Cymraeg a'r gefnogaeth gan Clybiau Plant Cymru wedi'i chael ar eich lleoliad, staff a'r plant yn eich gofal?**

Mae'r Addewid Cymraeg, ynghyd â'r gefnogaeth gan Clybiau Plant Cymru, wedi darparu fframwaith clir i ni fyfyrio ar ein harfer presennol a chydnabod yr hyn yr oeddem eisoes yn ei wneud yn dda. Mae wedi helpu i gynyddu hyder staff wrth ddefnyddio Cymraeg achlysurol ac wedi annog mwy o gysondeb ar draws y lleoliad. O safbwynt  y plant—mae'r Gymraeg bellach yn fwy gweladwy ac yn cael ei defnyddio'n rheolaidd fel rhan o weithgareddau bob dydd, gan helpu i normaleiddio'r iaith mewn ffordd hamddenol a chynhwysol. Yn gyffredinol, mae'r gefnogaeth wedi ein helpu i deimlo'n fwy hyderus bod ein dull yn gwella'r defnydd o'r Gymraeg, tra hefyd yn amlygu camau nesaf ymarferol wrth i ni barhau i ddatblygu ein darpariaeth.

**Beth ydych chi wedi'i fwynhau fwyaf am yr Addewid?**

Yr hyn rydym wedi'i fwynhau fwyaf am yr Addewid Cymraeg yw'r dull cefnogol ac anogol y mae'n defnyddio. Yn hytrach na theimlo fel asesiad ffurfiol neu restr wirio ddiystyr, mae wedi teimlo fel cyfle cadarnhaol i fyfyrio ar ein harfer a dathlu'r hyn rydym eisoes yn ei wneud yn dda. Mae'r arweiniad a'r gefnogaeth gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi bod yn galonogol ac yn ymarferol, gan helpu staff i deimlo'n fwy hyderus ac ysgogedig i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd. Yn gyffredinol, mae'r Addewid wedi teimlo'n gynhwysol, yn gyraeddadwy ac yn gadarnhaol, gan wneud ymgysylltu â'r Gymraeg yn brofiad cadarnhaol i staff a phlant.

**A yw'r Addewid Cymraeg wedi cynyddu eich hyder i weithio tuag at y Cynnig Gweithredol?**

Mae'r Addewid Cymraeg wedi cynyddu ein hyder wrth weithio tuag at y Cynnig Gweithredol. Mae wedi ein helpu i ddeall yn well sut mae'r Cynnig Gweithredol yn gweithio'n ymarferol ac wedi ein sicrhau bod llawer o elfennau eisoes wedi'u gwreiddio yn ein lleoliad. Mae'r gefnogaeth a'r arweiniad strwythuredig gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi gwneud y broses teimlo'n hylaw ac yn gyraeddadwy, yn enwedig mewn ardal lle mae yna llai o ddefnydd o'r Gymraeg. O ganlyniad, rydym yn teimlo'n fwy hyderus wrth gymryd camau bach ond ystyrlon i ddatblygu ein defnydd o'r Gymraeg ymhellach fel rhan o drefnau bob dydd.

**A ydych wedi derbyn unrhyw adborth gan rieni ynghylch y defnydd cynyddol o'r Gymraeg yn eich lleoliad?**

Rydym wedi cael adborth anffurfiol a chadarnhaol gan rieni ynghylch y defnydd cynyddol o'r Gymraeg yn y lleoliad. Er nad yw llawer o'n teuluoedd yn siarad Cymraeg ac efallai nad yw'r Gymraeg bob amser yn flaenoriaeth i rieni prysur, mae nifer wedi gwneud sylwadau cadarnhaol ar y ffordd y caiff y Gymraeg ei chyflwyno mewn ffordd hamddenol a naturiol. Mae rhieni wedi ymgysylltu drwy ddefnyddio cyfarchion syml wrth ollwng a chasglu, a drwy ymuno â chaneuon Cymraeg yn ystod digwyddiadau megis ein canu yn ystod t Nadolig. Yn gyffredinol, mae'r adborth yn awgrymu bod rhieni'n gwerthfawrogi'r amlygiad y mae eu plant yn ei gael ac yn gwerthfawrogi bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn naturiol, heb bwysau na disgwyliad.

**Beth yw'r camau nesaf yn eich lleoliad?**

Mae ein camau nesaf yn canolbwyntio ar adeiladu'n raddol ar y sylfeini a sefydlwyd trwy'r Addewid Cymraeg ar lefel Efydd. Rydym yn bwriadu parhau i gynyddu hyder a chysondeb staff wrth ddefnyddio Cymraeg achlysurol fel rhan o drefnau bob dydd, wrth nodi cyfleoedd bach, cyraeddadwy i gynyddu amlygiad plant i'r iaith. Byddwn hefyd yn parhau i fyfyrio ar ein harfer gan ddefnyddio fframwaith yr Addewid Cymraeg a chefnogaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wrth i ni ddechrau gweithio tuag at gyflawni'r lefel Arian, gan sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau'n parhau i fod yn gynhwysol, yn hylaw ac yn briodol i'n lleoliad a'n cymuned.

Cysylltwch â ni i ddarganfod mwy am y cymorth y gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ei gynnig i'ch clwb.

www.clybiauplantcymru.org
info@clybiauplantcymru.org
029 2074 1000
Facebook
Twitter
Instagram
















Registered Charity/Elusen Gofrestredig: 1093260
Company limited by guarantee/Cwmni Cyfyngedig trwy warant: 4296436